No.

**CABINET**

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 28 Mawrth, 2022.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd N. Moore (Cadeirydd); Cynghorydd L. Burnett (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr B.T. Gray, P.G. King, K.F. McCaffer, M.R. Wilkinson and E. Williams

**C881 CYHOEDDIAD -**

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

**C882 COFNODION –**

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mawrth, 2022 fel cofnod cywir.

**C883 DATGANIADAU BUDDIANT –**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

**C884 ARCHWILIO CYMRU: GWAITH PARTNERIAETH Y TRYDYDD SECTOR – CYNGOR BRO MORGANNWG (CYF) –**

Cyflwynwyd y cyfeiriad gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 1 Mawrth, 2022.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at y sylw a wnaed gan y Cadeirydd ynghylch pobl yn cymryd rhan neu'n sefydlu grwpiau cymunedol a dywedodd fod llawer o enghreifftiau da o bobl yn dod at ei gilydd trwy gydol y pandemig i helpu'r gymuned.

Wedi ystyried yr adroddiad,

PENDERFYNWYD –

(1) Cymeradwyo’r camau a’r newidiadau arfaethedig i fynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella ynghyd â sylwadau perthnasol gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol.

(2) NODI argymhellion y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael eu nodi ac y dylid awgrymu ffordd ymlaen ar gyfer y 4 Cynnig ar gyfer Gwella trwy Grŵp Gorchwyl a Gorffen.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1-2) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

**C885 DIWEDDARIAD CHWARTER 3 Y GOFRESTR RISG GORFFORAETHOL (CYF) –**

Cyflwynwyd y cyfeiriad gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 1 Mawrth, 2022.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at y drafodaeth lle rhoddwyd ystyriaeth i fformat y gofrestr risgiau ar gyfer diweddariadau yn y dyfodol a'r ffordd y nodwyd y risgiau. Dywedodd fod yr holl risgiau'n cael eu monitro ar Lefel Gwasanaeth yn ogystal â'u hadolygu gan dimau perfformiad a'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol.

Cafwyd sylw pellach gan y Cadeirydd a awgrymodd y dylid cydweithio'n agosach â'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac asiantaethau eraill, a dywedodd yr Arweinydd fod hynny eisoes yn digwydd. Roedd y gofrestr risgiau eisoes yn ymdrin â'r holl feysydd risg a grybwyllwyd yn y drafodaeth ac roedd gwaith gyda phartneriaid allanol ar waith ac yn parhau.

Wedi ystyried yr adroddiad,

PENDERFYNWYD – NODI’r sylwadau a wnaed yn y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 1 Mawrth 2022 a bod y mater a godwyd eisoes wedi'i drafod yn ddigonol.

Y rheswm dros y penderfyniad

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

**C886 POLISÏAU ATAL TWYLL DRAFFT (CYF) –**

Cyflwynwyd y cyfeiriad gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 1 Mawrth, 2022.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at y drafodaeth yn y cyfarfod ynghylch ymgynghori ag Undebau Llafur ar ddatblygu'r Polisi Chwythu'r Chwiban a phwysigrwydd codi proffil polisïau newydd gyda staff a allai godi pryderon lle y bo'n briodol, er mwyn i staff deimlo eu bod wedi'u hamddiffyn er mwyn gallu codi pryderon ac y byddai pryderon yn cael eu trin yn gyfrinachol.

Wedi ystyried yr adroddiad,

PENDERFYNWYD –

(1) NODI sylwadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 1 Mawrth 2022 a chymeradwyo’r Polisïau Atal Twyll drafft.

(2) RHOI awdurdod dirprwyedig i Bennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd, i wneud newidiadau teipograffyddol i'r Polisïau pe bai angen.

<u>Y rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1-2) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

**C887 ADRODDIAD ARGYMHELLIAD AR GYFER Y GRWP TASG A GORFFEN COST YR YSGOL (CYF) –**

Y cyfeiriad gan y Pwyllgor Craffu ar Ddysgu a Diwylliant ar 10 Cyflwynwyd Mawrth 2022.

Cytunodd yr Arweinydd â'r awgrym a wnaed yn y cyfarfod y dylid ailedrych ar y mater yn flynyddol, yn ogystal â chasglu gwybodaeth gan Gyrff Llywodraethu. Diolchodd hefyd i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen am yr holl waith a wnaed ar bwnc pwysig.

Cytunodd y Dirprwy Arweinydd ei fod yn ddarn pwysig o waith ac y dylai plant allu teimlo y gallent gymryd rhan lawn ym mywyd yr ysgol a pheidio â wynebu problemau o ran cost neu arddull gwisg ysgol, tripiau ysgol, ac ati, ac y dylent i gyd gael yr un profiadau. Byddai gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cynorthwyo ysgolion ac yn adeiladu ar y gwaith rhagorol sydd eisoes yn cael ei wneud yn y maes hwn. Cyfeiriodd hefyd at ei sylwadau yn y Pwyllgor Craffu ynghylch y gwaith sy'n cael ei gyfeirio at Rwydwaith y Cynghorau Ysgolion fel eitem ar agenda ar gyfer eu cyfarfod nesaf, yn ogystal â'u hanfon at bobl ifanc i roi sylwadau. Cytunwyd ar hyn.

Wedi ystyried yr adroddiad,

PENDERFYNWYD –

(1) NODI’r sylwadau a wnaed yn y Pwyllgor Craffu ar Ddysgu a Diwylliant ar 10 Mawrth 2022 a chymeradwyo'r Canllawiau Arfer Da drafft.

(2) DOSBARTHU'r Canllawiau Arfer Da i bob Corff Llywodraethu a Phennaeth yn ysgolion Bro Morgannwg ac i Rwydwaith y Cynghorau Ysgolion a phobl ifanc a'u gwneud ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Cyngor.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1-2) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

**C888 ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL: PERFFORMIAD CHWARTER 3 2021/22 (CYF) –**

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 17 Tachwedd 2021.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at sylwadau a wnaed yn y cyfarfod bod buddsoddiadau a llwyddiannau ar raddfa fachyn welliannau rhannol yn unig, efallai. Dywedodd fod newidiadau bach yn gadarnhaol ac y gallent wneud gwahaniaethau mawr o hyd.

Gwnaethant sylwadau hefyd ar y mater o gyfraddau heintio uwch a derbyniadau i ysbytai ledled y DU oherwydd COVID-19 yr oedd yr Arweinydd yn teimlo ei fod yn berthnasol ar hyn o bryd wrth i rai o'r gofynion statudol gael eu llacio ond gan annog parhau â rhai o'r mesurau gwirfoddol megis gwisgo masgiau wyneb mewn rhai lleoliadau.

Roedd materion recriwtio fel rhan o'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (GRhR) eisoes yn hysbys gan fod nifer cyfyngedig o bobl â chymwysterau proffesiynol ar gael ar gyfer rhai o'r rolau.

Roedd yr angen posibl am bedwerydd cylch brechu oherwydd lefelau cynyddol o COVID-19 yn parhau ac mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn gweinyddu hyn.

Dywedodd y Cynghorydd Gray ei bod yn bwysig nodi mai diben yr Adroddiad oedd gweld camau pendant yn cael eu cymryd a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl am yr hyn yr oedd y Cyngor wedi bod yn ei wneud. O ran y drafodaeth ynghylch Plant sy'n Derbyn Gofal, codwyd y mater hwnnw wedyn yn y Panel Rhianta Corfforaethol.

Dywedodd y Cynghorydd Williams fod staffio ar gyfer y GRhR yn broblem barhaus ac nad oedd gan Gymru ei rhaglen ei hun ar gyfer swyddogion arbenigol a bod menter wedi'i sefydlu gyda Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chynghorau eraill ynghyd â mentrau cenedlaethol i fynd i'r afael â'r mater hwnnw. Cafwyd prinder staff yn y GRhR hefyd gan eu bod wedi cael eu hailgyfeirio fel yr oedd yn ofynnol yn ystod y pandemig.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Pwyllgor Craffu am godi eu sylwadau, ond roedd y camau hynny eisoes yn mynd rhagddynt o ran y sylwadau a wnaed.

Wedi ystyried yr adroddiad,

PENDERFYNWYD –

(1) NODI'r sylwadau a wnaed yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 17 Mawrth, 2022 a bod camau cysylltiedig wedi'u rhoi ar waith eisoes o ran llawer o'r sylwadau a wnaed.

(2) BOD unrhyw adroddiadau i fynd i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau yn y dyfodol hefyd yn cael eu cyfeirio at y Cabinet.

<u>Y rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1-2) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

**C889 PROSIECT SERO – DIWEDDARIAD, ADNODDAU, TYSTIOLAETH AC ADRODD (CYF) –**

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 17 Mawrth 2022.

Roedd y Pwyllgor wedi gwneud argymhelliad ynghylch rhoi mwy o bwyslais ar gynhyrchu a phrynu bwyd yn lleol ym Mro Morgannwg er mwyn lleihau allyriadau carbon a achosir wrth fewnforio bwyd o ffynonellau allanol, a dywedodd yr Arweinydd ei fod eisoes dan sylw a'i fod wedi cael ei ystyried gan Big Fresh.

Roedd y Cyngor eisoes yn ystyried inswleiddio mathau cyhoeddus a mathau eraill o adeiladau er mwyn lleihau allyriadau carbon a helpu i leihau'r costau/defnydd o danwydd fel rhan o'i Gynllun Busnes Tai ac ar gyfer adeiladau'r Cyngor.

Roedd gwaith ar arferion a pholisïau caffael er mwyn gweithio tuag at atebion mwy carbon niwtral eisoes ar y gweill ond byddai'r Cyngor yn hapus i lobïo Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

Roedd y Cyngor eisoes yn ceisio dylanwadu ar arferion o ran caffael yn lleol a'r gadwyn gyflenwi ehangach.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd fod gwybodaeth Chwarter 3 yn dangos cynnydd ond ei bod hefyd yn tynnu sylw at y ffordd ymlaen, e.e. roedd Ysgol Gynradd Trwyn y De bellach ar agor ond roedd gwaith yn parhau o ran ysgolion eraill i gyrraedd lefelau di-garbon. Fel rhan o'r fenter Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu, roedd nifer y contractau i fusnesau lleol a chyflogaeth i'r rhai o fewn cod post lleol eisoes yn cael eu mesur. Roedd gwaith yn cael ei ddwyn ynghyd i lunio'r adroddiad a nodi cynnydd, ond roedd hyn hefyd yn dangos bod rhagor i'w wneud o ran rhai agweddau.

Bu'r Arweinydd yn canmol yr holl waith a oedd wedi'i wneud i'r agweddau a godwyd yn yr adroddiad hyd yma ac y byddai angen rhagor o ddiweddariadau a herio.

Wedi ystyried yr adroddiad,

PENDERFYNWYD – BOD y sylwadau a wnaed yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 17 Mawrth 2022 yn cael eu nodi a bod camau cysylltiedig wedi'u rhoi ar waith mewn perthynas â llawer o'r sylwadau a wnaed eisoes a bod gwaith yn mynd rhagddo.

Y rheswm dros y penderfyniad

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

**C890 FFORWM YMGYNGHOROL AR Y CYD, 14 CHWEFROR, 2022 –**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Fforwm Ymgynghorol ar y Cyd a gynhaliwyd ar 14 Chwefror 2022 fel y'u cynhwysir yn yr agenda a gyflwynwyd.

Dywedodd yr Arweinydd, wrth drafod yr eitem ar yr agenda ynglŷn ag Adroddiad Salwch Chwarter 3 2021/22, nad oedd yn syndod bod lefelau salwch yn uwch o ganlyniad i'r pandemig a bod hyn wedi'u nodi ar draws pob Awdurdod. Roedd pobl bellach yn ceisio bwrw ymlaen â'r 'normal newydd' ond adroddwyd am nifer uwch o achosion gyda'r amrywiolyn COVID newydd a oedd yn fwy trosglwyddadwy nag amrywiolion blaenorol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd King at yr eitem ar yr agenda ynghylch Diweddariad Cynllun Pensiwn Caerdydd a'r Fro, yn benodol y cyfleuster Hunanwasanaeth i Aelodau a oedd bellach ar gael i aelodau'r cynllun pensiwn a oedd yn gweithio i Gyngor Bro Morgannwg. Roedd yn ased a oedd yn caniatáu i staff fewngofnodi'n breifat ac ymchwilio i ba bensiwn y gallent fod â hawl iddo neu beidio, pryd y gallent ymddeol neu beidio, ac ati. Teimlai, gan mai dim ond 28% o'r staff oedd wedi cofrestru i ddefnyddio'r gwasanaeth, y byddai ychydig o waith hyrwyddo o fudd i annog staff i ddefnyddio'r cyfleuster. Cytunodd yr Arweinydd y gallai Adnoddau Dynol a Chyflogres hyrwyddo hyn ar-lein, trwy'r Briff Craidd ac ar ffurf copi caled lle bo hynny'n briodol, er mwyn cyrraedd y rhai na fyddai ganddynt gysylltiad ar-lein yn y gwaith.

PENDERFYNWYD –

(1) NODI cofnodion cyfarfod y Fforwm Ymgynghorol ar y Cyd a gynhaliwyd ar 14 Chwefror 2022.

(2) BOD Adnoddau Dynol a Chyflogres yn ceisio hyrwyddo'r cyfleuster Hunanwasanaeth Aelodau i bob aelod o staff ar-lein, trwy'r Briff Craidd ac ar ffurf copi caled lle bo hynny'n briodol, er mwyn cyrraedd y rhai na fyddai ganddynt gysylltiad ar-lein yn y gwaith.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1-2) Wrth nodi'r cofnodion.

**C891 PRIFDDINAS-RANBARTH CAERDYDD – CABINET RHANBARTHOL – 21 CHWEFROR, 2022 –**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Cabinet Rhanbarthol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a gynhaliwyd ar 21 Chwefror 2022 fel y'u cynhwyswyd yn yr agenda.

Dywedodd yr Arweinydd fod y cofnodion yn ymwneud â diweddariad am gaffael ac adfer hen Orsaf Bŵer Aberddawan a'r Achos Busnes Llawn terfynol.

PENDERFYNWYD – NODI cofnodion cyfarfod Cabinet Rhanbarthol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a gynhaliwyd ar 21 Chwefror 2022.

Y rheswm dros y penderfyniad

Wrth nodi’r cofnodion.

**C892 DIWEDDARIAD AR FENTRAU CYDWEITHIO STRATEGOL (AG/BA) (CRAFFU – PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL**) –

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am fentrau cydweithio strategol y Cyngor.

Roedd gweithgarwch ar y cyd wedi cynyddu'n gyflym mewn ymateb i'r sefyllfa ariannol heriol ac i gydnabod gwerth gweithio mewn partneriaeth i rannu sgiliau, arbenigedd a phrofiad wrth fynd i'r afael â materion cymhleth.

Roedd y Compendiwm Mentrau Gweithio Strategol (Atodiad A) yn rhoi trosolwg dros weithgarwch cydweithredol lefel strategol yr oedd y Cyngor yn ymwneud ag ef ac yn manylu ar y gwahanol fentrau sydd ar y gweill.

Yn dilyn adolygiad o'r Compendiwm, roedd gwaith wedi'i wneud i adlewyrchu'r newid mewn rhai gweithgareddau partneriaeth yn dod yn rhan o fusnes craidd.

Rhoddodd yr adroddiad hwn yr wybodaeth ddiweddaraf bob chwe mis i'r Cabinet am fentrau cydweithio strategol ac mae'n dangos cynnydd perthnasol o ran mentrau.

Dywedodd yr Arweinydd fod nifer o'r datblygiadau yn rhai newydd a thrawsbynciol, gan weithio mewn partneriaeth â Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd, y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ac ati. Gofynnodd hefyd i'r adroddiad gael ei ddosbarthu i bob Cyngor Tref a Chymuned er gwybodaeth iddynt.

Dywedodd y Cynghorydd Gray ei bod yn bwysig sylweddoli swm y cydweithio rhanbarthol yr oedd Bro Morgannwg yn ymwneud ag ef a sut gallai ôl troed rhanbarthol newid gan ddibynnu ar y pwnc dan sylw. Cytunodd yr Arweinydd ac awgrymodd ymhellach y dylid rhannu'r adroddiad hefyd â phartneriaid yn y Trydydd Sector er gwybodaeth iddynt hefyd.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD -

(1) NODI'r mentrau cydweithio strategol a oedd ar waith i gefnogi'r gwaith o ddarparu a datblygu gwasanaethau'r Cyngor a chanlyniadau ac amcanion lles y Cyngor.

(2) LLEDAENU'r adroddiad trwy e-bost i bob Aelod etholedig, Clerc Cyngor Tref a Chymuned ac aelod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus er gwybodaeth iddynt.

<u>Y rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am fentrau cydweithio strategol.

(2) Rhoi trosolwg i Aelodau etholedig a phartneriaid strategol o fentrau cydweithio strategol.

**C893 TREFNIADAU DERBYN I YSGOLION 2023/2024 (D/AA) (CRAFFU – DYSGU A DIWYLLIANT) –**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio er mwyn rhoi gwybod i'r Cabinet am ganlyniad yr ymarfer ymgynghori a gynhaliwyd ar drefniadau derbyn i ysgolion ar gyfer Ysgolion Cymunedol yn unol â Rheoliadau Addysg (Penderfynu ar Drefniadau Derbyn) (Cymru) 2006.

Daeth 126 o ymatebion i law'r Cyngor erbyn y dyddiad cau, sef 11 Chwefror 2022.

Roedd gan y Cyngor ddyletswydd statudol i ymgynghori ar drefniadau derbyn i ysgolion yn flynyddol ac i benderfynu ar y trefniadau ar gyfer 2023/24 yn dilyn ymgynghoriad priodol erbyn 15 Ebrill 2022.

Tynnodd y Dirprwy Arweinydd sylw at y ffaith mai dim ond un newid bach a gafwyd i'r trefniadau derbyn oherwydd newid mewn deddfwriaeth fel y'i cynhwysir ym mharagraff 2.5 o'r adroddiad, o ganlyniad i weithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, nad oeddent yn cael eu hadlewyrchu ar hyn o bryd yn y Cod Derbyn i Ysgolion.

Cynigiodd yr Arweinydd y dylid defnyddio'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys oherwydd yr amserlenni dan sylw. Cytunwyd ar hyn.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo a'r defnydd o'r weithdrefn benderfyniadau brys,

PENDERFYNWYD –

(1) NODI’r adroddiad a'r atodiadau eraill a gynhwysir fel rhan o'r adroddiad.

(2) CYMERADWYO’r Polisi Derbyn i Ysgolion yn Atodiad A a oedd yn cynnwys newidiadau i'r gyfraith am dderbyniadau o ganlyniad i weithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 nad oeddent yn cael eu hadlewyrchu ar hyn o bryd yn y Cod Derbyn i Ysgolion

(3) BOD y defnydd o'r weithdrefn benderfynu frys, fel y'i nodir yn Adran 14.14 Cyfansoddiad y Cyngor, yn cael ei arfer gan fod gan y Cyngor ddyletswydd statudol i ymgynghori ar drefniadau derbyn i ysgolion yn flynyddol ac i benderfynu ar y trefniadau ar gyfer 2023/24 yn dilyn ymgynghoriad priodol erbyn 15 Ebrill, 2022 fan bellaf.

<u>Y rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) Sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol yn cael ei hystyried gan y Cabinet wrth ddod i benderfyniad ar y trefniadau arfaethedig erbyn 15 Ebrill 2022.

(2) Roedd yn ofynnol i'r Cyngor adolygu ac ymgynghori ar dderbyniadau i ysgolion yn flynyddol ac adrodd am ganlyniad yr ymgynghoriad ac unrhyw gynigion a ddeilliodd ohono.

(3) Penderfynu ar y trefniadau derbyn i ysgolion ar gyfer 2023/24 erbyn 15 Ebrill 2022 fan bellaf.

**C894 CYNLLUN BUSNES A STRATEGAETH AILGYLCHU A RHEOLI GWASTRAFF (2022 - 2032) (WCT) (CRAFFU – AMGYLCHEDD AC ADFYWIO) –**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth a'i ddiben oedd ceisio cymeradwyaeth i Gynllun Busnes Ailgylchu a Rheoli Gwastraff a nifer o gamau cysylltiedig a chytuno mewn egwyddor ar Strategaeth Ailgylchu a Rheoli Gwastraff 10 mlynedd newydd (2022 - 2032).

Roedd y Cyngor wedi mabwysiadu 'glasbrint casgliadau' Llywodraeth Cymru, a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i wastraff domestig i’w ailgylchu gael ei wahanu ar ymyl y ffordd i'w gasglu ac roedd wrthi'n cyflwyno'r gwasanaeth ar draws Bro Morgannwg.

Roedd y 'glasbrint casgliadau', ynghyd â mesurau eraill i wella gwasanaeth ailgylchu'r Cyngor, yn sicrhau bod cydymffurfiaeth â chanllawiau cyfredol Llywodraeth Cymru a deddfwriaeth sy'n ymwneud â gwastraff wedi'u cyflwyno'n llwyddiannus yn y Fro wledig ac yn y Barri. Disgwylir cyflwyno hyn i Ddinas Powys a Phenarth ar ôl i’r Orsaf Trosglwyddo Gwastraff gael ei chwblhau yn y Barri yn ddiweddarach yn 2022.

Bellach, roedd angen i'r Cyngor fabwysiadu Strategaeth hirdymor i ymgorffori'r casgliad ailgylchu a gwastraff domestig y cytunwyd arno eisoes ac i gynllunio ar gyfer hyd at 10 mlynedd o’r adeg hon. Roedd angen iddo hefyd gytuno ar gynllun busnes a oedd yn gysylltiedig â dyheadau hirdymor y Cyngor.

Roedd yr adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer achos Cynllun Busnes a oedd yn nodi'r adnoddau, y staffio a'r gyllideb angenrheidiol i gyflawni'r Strategaeth Ailgylchu a Rheoli Gwastraff ynghyd â'r seilwaith a'r cyllid cyfalaf y byddai eu hangen.

Roedd nifer o gontractau gwasanaeth gwastraff ar fin dod i ben cyn bo hir, ac roedd yr adroddiad yn gofyn am estyniadau byr i'r contractau hynny ar delerau ac amodau tebyg er mwyn caniatáu parhad y gwasanaethau cysylltiedig.

Roedd yn anodd i'r gwasanaethau hyn dendro'n gynt gan mai dim ond yn ddiweddar y cytunwyd ar y pwysau cost refeniw ar gyfer y Gwasanaeth Rheoli Gwastraff ar gyfer 2022/23.

Roedd yr adroddiad hefyd yn ceisio cymeradwyaeth mewn egwyddor ar gyfer 'Strategaeth Ailgylchu a Rheoli Gwastraff' 10 mlynedd ddrafft a oedd yn ffurfioli'r modd y darperir gwasanaethau ynghyd â mesurau eraill i sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei uchelgeisiau amgylcheddol a'i dargedau Ailgylchu Statudol. Roedd hyn yn gam allweddol a oedd yn cyfrannu at raglen ddatgarboneiddio'r Cyngor, Prosiect Sero.

Pe bai'r Strategaeth yn cael ei chytuno mewn egwyddor, byddai'n destun cyfnod ymgynghori cyhoeddus o 12 wythnos, a fyddai hefyd yn gofyn i'r Pwyllgor Craffu perthnasol ystyried y Strategaeth.

Roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi diweddariad am y Siop Ailddefnyddio yn Ystad Fasnachu Iwerydd a oedd wrthi’n cael ei hadeiladu a'r cyfleoedd ar gyfer Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref newydd yn Llandŵ ar gyfer y Fro Orllewinol

Roedd yr Aelod Cabinet yn falch o gyflwyno'r adroddiad cynhwysfawr ynghylch sut mae'r Cyngor yn rheoli ei wastraff domestig ac yn gweithio i gyflawni'r uchelgeisiau amgylcheddol o dan Brosiect Sero. Roedd yn falch bod staff rheoli gwastraff y Cyngor, trwy’r holl bwysau a wynebwyd yn ystod y pandemig, wedi parhau i ddarparu gwasanaethau casglu deunydd ailgylchu a gwastraff llawn, gan gofnodi ffigurau perfformiad ailgylchu o 70.6%, sef yr ail uchaf yng Nghymru ac un o'r canlyniadau perfformiad uchaf yn y DU.

Cyflawnwyd hynny trwy ymdrechion aruthrol trigolion Bro Morgannwg a werthfawrogwyd yn fawr ac a wnaed yn fwy trawiadol gan nad yw pob preswylydd ar draws Bro Morgannwg yn elwa eto o'r trefniadau ailgylchu newydd.

Cynigiwyd y dylid cyfeirio'r Strategaeth Rheoli Ailgylchu a Gwastraff 10 mlynedd ddrafft ar gyfer 2022 - 2032 i'w hystyried gan y Pwyllgor Craffu fel rhan o'r ymgynghoriad 12 wythnos ac yna ei dychwelyd i'r Cabinet i ystyried y sylwadau a'r cytundeb terfynol.

Daeth y Cynghorydd King i'r casgliad mai'r adroddiad hwn oedd yr adroddiad mwyaf cynhwysfawr gyda'r nod o adeiladu ar lwyddiannau'r gorffennol a chynnal statws y Cyngor fel un o'r awdurdodau ailgylchu gorau yn Ewrop.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Williams at gyflwyno gwasanaethau ailgylchu yn y dyfodol, bod gwersi wedi'u dysgu ynghylch addysg a darpariaeth trwy brofiad blaenorol, gyda thrigolion bellach yn ymroddedig ac yn gadarnhaol am y gwasanaeth. Gobeithiai y byddai Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref newydd yn Llandŵ erbyn diwedd y strategaeth 10 mlynedd.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD –

(1) BOD y Cabinet yn cymeradwyo'r Cynllun Busnes a'r strwythur staffio diwygiedig y manylir arno yn yr Adroddiad.

(2) CYMERADWYO'r cynnig y manylir arno yn yr Adroddiad i gadw Cowbridge Compost cyfleuster prosesu ailgylchu ychwanegol.

(3) Bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth, y Swyddog Monitro/Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd a'r Pennaeth Cyllid i estyn y contract presennol gyda Cowbridge Compost ar delerau ac amodau tebyg, am gyfnod o hyd at 6 mis o 1 Ebrill, 2022.

(4) Bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth, y Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd a'r Pennaeth Cyllid i estyn Prosesu Deunyddiau Ailgylchadwy (contract cymysg) ar delerau ac amodau tebyg am gyfnod o hyd at 6 mis o 30 Ebrill 2022.

(5) CYTUNO ar ddefnyddio £250k o'r Gronfa Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth i sefydlu cronfa gwerthoedd materol newydd.

(6) NODI'r gyllideb sy'n ofynnol y tu hwnt i 2024, er mwyn cyflawni'r Strategaeth.

(7) CYTUNO mewn egwyddor ar y Ganolfan Ailgylchu Gwastraff Cartref newydd yn Llandŵ a datblygu parcio fflyd yn Ystâd Fasnachu'r Iwerydd ar yr amod bod digon o arian ar gael yn rhaglenni cyfalaf y Cyngor.

(8) CYMERADWYO mewn egwyddor y Strategaeth Rheoli Ailgylchu a Gwastraff 10 mlynedd ddrafft ar gyfer 2022 - 2032, yn amodol ar ganlyniad ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos i'w chynnal yn haf 2022.

(9) BOD argymhelliad 8 uchod yn cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Craffu (yr Amgylchedd ac Adfywio) i'w ystyried.

(10) BOD y defnydd o'r weithdrefn benderfyniadau brys, fel y'i nodir yn Adran 14.14 Cyfansoddiad y Cyngor, yn cael ei arfer mewn perthynas ag Argymhellion 1, 2, 3 a 4.

(11) Bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd i weithredu'r cytundebau y cyfeirir atynt yn Argymhellion 3 a 4.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Sicrhau bod gan y gwasanaeth yr adnoddau priodol i reoli seilwaith newydd yn effeithiol ac i gwblhau'r gwaith o weithredu'r "glasbrint casgliadau", sef dod o hyd i gasgliadau ailgylchu wedi'u gwahanu.

(2) Sicrhau bod gan y gwasanaeth yr opsiwn ymarferol mwyaf effeithlon sydd ar gael ar gyfer casglu gwastraff i'w ailgylchu yn y Fro Wledig.

(3) Daeth y contract presennol i ben ar 31 Mawrth 2022 a byddai'r estyniad byr yn sicrhau parhad gwasanaeth ar gyfer casgliadau lleol y Fro Wledig am gyfnod byr, er mwyn caniatáu i gontract newydd gael ei ddrafftio am gyfnod hwy ar sail y gofynion newydd ar gyfer y safle pan fydd safle'r Barri ar waith.

(4) Daeth y contract i ben ar 30 Ebrill 2022 a darparwyd yr estyniad byr ar gyfer parhad gwasanaeth ar gyfer casgliadau cymysg tra bod y contract newydd yn cael ei dendro a'i gytuno.

(5) Daeth y contract i ben ar 30 Ebrill 2022 a darparwyd yr estyniad byr ar gyfer parhad gwasanaeth ar gyfer casgliadau cymysg tra bod y contract newydd yn cael ei dendro a'i gytuno. Lleihau unrhyw effaith bosibl ar ddarparu gwasanaethau rheng flaen a sicrhau bod digon o arian wrth gefn pan fydd marchnadoedd yn amrywio a bod incwm yn lleihau.

(6) Sicrhau bod adnoddau priodol ar gael i gyflawni'r Strategaeth Rheoli Ailgylchu a Gwastraff arfaethedig (2022-2032).

(7) Sicrhau bod cyfleuster CAGC modern hirdymor ar gael i breswylwyr yn y Fro Wledig ac i ddarparu'r gwasanaeth ailgylchu a gwastraff gyda lle parcio wrth ymyl y Cyfleuster Adfer Adnoddau er mwyn sicrhau'r effeithlonrwydd gweithredol mwyaf posibl a lleihau amser anghynhyrchiol.

(8) Sicrhau bod gan y Cyngor ymgynghoriad diffiniedig ar gynllun strategol i gyflawni ei dargedau ailgylchu statudol a’i uchelgeisiau amgylcheddol a chydymffurfio â'r ddeddfwriaeth gwastraff gyfredol.

(9) Rhoi cyfle i Bwyllgor yr Amgylchedd ac Adfywio ystyried manylion y Strategaeth Ailgylchu a Rheoli Gwastraff 10 mlynedd arfaethedig.

(10) Caniatáu i'r contractau presennol gael eu hestyn heb unrhyw risgiau i barhad gwasanaethau gwastraff.

(11) Darparu awdurdod i sicrhau bod cytundebau cyfreithiol ar waith.